# DINESYDD
## Rhagfyr

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1979
RHIF 63



"Gorffwys tra ar ffo i'r Aifft" gan Giovanni Battista Gaulli. (c.1700) Mewn lliw yng Ngharden Nadolig Amgueddfa Genedlaethol Cymru

# NADOLIG LLAWEN

# Golygyddol

Mis i'w ryfeddu fu Tachwedd, 1979. Dyma'r mis pan welwyd datblygiad pellach yn y cyffro mawr yng ngwledydd Islam: yn Iran, Pacistan ac Arabia Sawdi, lle gwelwyd, yn eu tro, gymryd gwystlon, llosgi llys-genhadaeth U.D.A., a meddiannu'r Mosg Mawr, cysegr sancteiddiolaf y Mwslimiaid, ym Meca ei hun.

Yn nes i gartref, gwelwyd codi'r Cyfradd Benthyca Isaf i 17%, ac yn sgil hynny, y Cyfradd Arwystliad i 15 y cant. Pan ychwanegir y rhain at y codiad yn T.A.W. (Y Dreth Ar Werth) i 15% rai misoedd yn ôl, y toriadau mawr, a'r codiadau dirif mewn prisoedd, ni ellir ond arswydo rhag effaith hyn oll ar y safon byw. Does rhyfedd yn y byd fod 'trwst cerddediad ym mrig y morwydd', hyd yn oed o fewn y gwersyll Toriaidd.

Ar wahan i iechyd a lles cymdeithas yn gyffredinol, un o'r pethau sydd debycaf o ddioddef yw addysg. Bydd effaith yn gyffredinol ar deithio plant i'r ysgol ac ar ginio ysgol, ond gall fod yn arbennig o niweidiol i Ysgolion Cymraeg am fod cymaint o'u plant yn aml yn gorfod teithio gymaint ymellach. Bydd cwrdd â'r sefyllfa hon yn gofyn am yr un ymdrech benderfynol gan rieni plant ysgol y dydd heddiw — a'u cyfeillion, gobeithir — ag a ddangoswyd gan y rhieni hynny yng Nghaerdydd — a llawer tebyg — a lafuriodd dros gael Ysgol Gymraeg ddeugain mlynedd yn ôl. Ceir peth o hanes eu hymdrech ysbrydolieithus yn y rhifyn hwn.

Ac yn olaf, eitem o fyd natur. 'Mae e mor dew â'r wadden,' medd pobl am rywun 'mewn cas cadw da'. Dengys yr ymadrodd ryw anwylder tuag at anifail bach a greodd er hynny gryn ddifrod o bryd i'w gilydd. O'r braidd y clywir yr un tinc yn llais papurau, cyfryngau, a rhai o wleidyddion Lloegr pan roddant y llysenw hwn ar Mr Blunt. Os dyn sy'n bradychu'i wlad a'i dreftadaeth ei hun a olygir — a mae'r darlun ymhell o fod yn syml yn achos Mr B — yna bu gan Gymru nifer dda o'r rhywogaeth yma, yn enwedig oddiar amser y Tuduriaid.

## *Anfonwch eich defnyddiau!*

O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT. *Dyw hi byth yn rhy gynnar* a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella *ERBYN YR 8fed O BOB MIS*. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 15fed o'r mis.

Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:

Shân Emlyn — 751469
Gwyn Lewis Davies — 756882
E. Gunston Jones — 499469
T. Raymond Edwards — 563588

Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.

## COFIWCH AM Y PARTI

*(tudalen 12)*

# — Y CALENDR —

**RHAGFYR**

13 Côr Ysgol Gyfun Glantaf: NAW LLITH A CHAROL, Eglwys yr Holl Saint, Ystum Taf (Gogledd Llandaf), 7.15p.m.

14 Y MESEIA YNG NGHAERFFILI. Côr Ysgol Rhydfelen a Janet Price, Angela Rogers Davies, Kenneth Bowen, a Delme Bryn Jones.

15 Y MESEIA YM MERTHYR. Côr Ysgol Rhydfelen a Janet Price, Angela Rogers Davies, Wynford Evans, a Delme Bryn Jones.

15 Côr Ffilharmonig Caerdydd: CYNGERDD yn cynnwys Offeren yn C Beethoven, Te Deum Haydn, Carolau gan Vaughan Williams a Berlioz. Telynores: Siân Morgan Thomas. Neuadd Gyngerdd y Brifysgol, Heol Corbett 7.30p.m. £1.00.

Ysgol Feithrin Llysfaen CÂN Y NADOLIG. Eglwys Dewi Sant. Mins peis a'r coffi. £1.25. 8.00p.m.

22 PARTI NADOLIG Y DINESYDD Neuadd Goffa, Llandaf. 8.00p.m. Bwyd, gwin ac adloniant. Mynediad £2.00.

**IONAWR**

19 Cwmni'r Dewin, Caerfyrddin: WRTH AROS GODOT. Athrofa Uwch De Morgannwg (Coleg Cyncoed), 7.30p.m. £1.

19 Cwmni Heol y Crwys: WNCWL BEN, Comedi Dair Act. Ysgol Gyfun Radur, 7.30 p.m.

20 Cwmni'r Urdd: Y GENI. Theatr y Sherman.

**MAWRTH**

26 EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT: Ffonier Caerdydd 60823

### THEATR BARA CAWS

Bydd THEATR BARA CAWS yn dod â'u sioe newydd HWYLIAU'N CODI i'r Cabidyldy (Chapter), Caerdydd, ddiwedd Ionawr — ddechrau Chwefror. Gweler rhifyn Ionawr am fanylion pellach.

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel 753695), gydag enwau, dyddiad ac amser, etc.

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

## *CYLCH MAM A'I PHLENTYN RHIWBEINA*

Cynhelir y Cylch yma bob pnawn Dydd Llun o 2.15 - 3.30 yn Neuadd Eglwys y Methodistiaid, Maes y Deri (oddi ar Heol y Deri). Mae dwsin o famau yn perthyn i'r grŵp yma ac ar gyfartaledd daw tuag wyth ynghyd bob pnawn Llun. Mae croeso i unrhyw fam, a'i phlentyn dan 3 oed i ddod. Am fwy o wybodaeth cysyllwch â Sue Hart, 137, Heol Rhydypennau. Rhif Ffôn: Caerdydd. 618261.

## *ENW'R GAIR*

Yn gynnar yn Nhachwedd, bu'r Athro Caerwyn Williams yn darlithio ar Geiriadurwyr Y Dadeni Dysg yn Sain Ffagan, Caerdydd. Roedd hon yn ddarlith hynod ddiddorol, un a roddai gipolwg ddiddorol i ni,yr ychydig o bobl a sylweddolodd fod angen geiriadur arnom, inni wybod "enw'r gair", chwedl Gwyn Thomas. Nid pob un ohonom sy â'n trwynau mewn geiriadur byth a hefyd sy'n sylweddoli i rywun, rywbryd, fynd ati i gynllunio rhai. Gobeithio y ceir noson debyg cyn hir.

# COLOFN
## Shân Emlyn

**Mae'n beth rhyfedd — ond weithiau, wrth edrych yn ôl ar ambell ddiwrnod, mae modd gweld rhyw ddolen gydiol rhwng digwyddiadau neu sgyrsiau'r dydd. Cefais brofiad felly yn ddiweddar.**

Yn y bore daeth criw o ffrindiau draw 'cw am baned a buan y trodd y sgwrsio yn drafodaeth eitha difrifol ar gyflwr y Gymraeg ar wefusau ein plant. Cytunem fod iaith ein plant yn ddigon glân a chywir ond ei bod yn gebyst o ddi-liw — dim idiomau a 'chydig iawn o briod-ddulliau naturiol. Trafodwyd iaith darlledwyr ifanc talentog a dod i'r casgliad yma eto mai digon trwsgwl a llwyd yw eu hiaith hwythau. Tybed ai ein cenhedlaeth ni yw'r ola' i siarad tafodiaith liwgar sy'n llifo'n rhwydd a naturiol dros ein gwefusau? Ai iaith Gymraeg yr Ysgolion Cymraeg a Chymraeg y Dysgwyr a siaredir yn y dyfodol?

Beth am y ddolen gydiol yma? Wel, gyda'r nos cefais ginio yng nghwmni'r Athro Gwyn A. Williams cyn iddo draddodi Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru. Dyma'r tro cynta i mi gyfarfod yr Athro, a rhyfeddais at ei ddigrifwch ac at ddyfnder ei ymwybyddiaeth Gymraeg. Ym mhob agwedd o'r sgwrs tynnai ar ei wybodaeth drylwyr o hanes Cymru i brofi pob pwynt a finna, ar adegau, yn f'anwybodaeth yn gorfod derbyn ei air. Mae ganddo wybodaeth o'r iaith er na fentra i'w siarad hi. Yn rhy fuan o lawer daeth yn bryd inni ymgynnull yn y stiwdio i wrando ar ei ddarlith. "When was Wales?" oedd ei destun pryfoclyd ac mae'r ddarlith wedi ei chyhoeddi. Yr hyn am tarawodd yn gynta oedd grymuster ei iaith Saesneg a chyflymder ei draddodi. Roeddwn ar bigau'r drain yn ceisio ei ddilyn o ran iaith a'i ddeall o ran ei syniadau. Darlun digon du a gawsom o ddyfodol a, hyd yn oed o orffennol Cymru.

Nid cael eu geni y mae cenhedloedd, meddai, ond cael eu creu. Brwydrau a chwyldroadau diwydiannol sydd wedi rhoi bodolaeth i wledydd — felly y crewyd Cymru. Cymerodd ganrifoedd i bobol i'r gorllewin o Glawdd Offa ystyried eu hunain yn Gymry. Priodola ddirywiad yr iaith i'r ffaith iddi gael ei chysylltu â chrefydd a diwylliant ac nid â'r byd seciwlar. Trawsnewidiwyd Cymru gan y Chwyldro Diwydiannol; denwyd y boblogaeth wrth y miliynau i'r de; alltudiwyd miloedd i drefi diwydiannol Lloegr. Chwalwyd y gymdeithas wledig. Gyda'r dirwasgiad bu chwalu pellach ac ymfudodd miloedd o Gymry ar draws Môr Iwerydd. Gyda chefndir o'r math yma mae'n dasg anobeithiol i genedl fechan gynnal ei hunaniaeth.

Gwyrth yw hi ein bod yn dal mewn bodolaeth, a honnai'r Athro mai'r rheswm am hyn yw bod y Cymro, o genhedlaeth i genhedlaeth, wedi glynnu at Brydeindod yn ei amryfal agweddau. Tybed, meddwn wrthyf fy hun? Aeth yr Athro yn ei flaen — onid dyna a ddewisodd Cymru yn y Refferendwm a'r Etholiad? Mae cenedlaetholwyr yn gwadu bodolaeth y Prydeindod hwn. Gwadu hanes yw hyn, meddai, a dyna paham mai poenus iawn yw bod yn Gymro heddiw. Cyfalafiaeth sydd yn lladd Cymru — i Gymru fyw mae'n rhaid i gyfalafiaeth farw.

Dyna'n fras, os deallais i hi, oedd crynswth y Ddarlith Radio eleni. Y ddolen gydiol — wel, oedd rywsut. Oni threuliais i ddiwrnod cyfa o fore gwyn tan nos yn gwrando a thrafod sail bodolaeth fy ngwlad a'm hiaith? Er dued y darlun, cefais flas ar y diwrnod ac ni fynnwn newid byd ag unrhyw un sydd heb y gwewyr hwn o fod yn Gymro Cymraeg heddiw.


## HYSBYSEBU

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222-396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)


# NEWYDDION CWM RHYMNI

# Chwilio am y Cymry Cymraeg

**Beth sydd wedi digwydd yng Nghwm Rhymni yn ystod yr hydref eleni? Dal ei dir yn ddygn y mae'r bywyd Cymreig, yn ôl pob golwg. Ffyddloniaid y Gymdeithas eleni eto wedi torchi eu llewys ac yn holi'n ddygn am gymorth y Cymry Cymraeg sy wedi cartrefu yn y Cwm. Maent yn clywed fod rhai o bedwar ban y fro Gymraeg fondigrybwyll yn ymgartrefu yma ond pur anaml y mae rhywun yn dod ar eu traws.**

HOLI A STILIO

I geisio cael gafael arnynt a chael gwybod beth yw eu sylwadau a'u syniadau ar bethau fel ag y maent yng Nghwm Rhymni mae pwyllgor Cymdeithas Gymraeg Caerffili, o dan arweiniad Dr Neville Daniel, 1 Llys Ogwr, Hendredenny, Caerffili, wedi paratoi holiadur i'w ddosbarthu ymysg Cymry Cymraeg a'r dysgwyr. Yng nghyfarfod Ionawr 21ain 1980 am 7.15 yn neuadd yr Ysgol Gymraeg, bwriedir trafod atebion yr holiadur o dan y testun 'Ein Cymdeithas yn yr Wythdegau'. Tybed a fydd Aelod Seneddol Caerffili a Chadeirydd Cyngor Dosbarth Cwm Rhymni yn gallu bod yn bresennol?

AFIAITH CAERFFILI?

Mae Cymdeithas Gymraeg Caerffili wedi cynnal tri chyfarfod yn barod. Agorwyd y tymor yng nghwmni Mrs Mair Elvet Thomas, Caerdydd. Cafwyd orig ddifyr yng nghwmni'r wraig sydd wedi astudio Afiaith Gwent, ac sy'n gallu sianelu'r afiaith nodedig hwn i'w gwrandawyr. Trueni mai ond prin ddeg ar hugain ohonom oedd yn gwrando arni. Beth sydd yn rhaid i swyddogion y Gymdeithas ei wneud i ddenu mwy o bobl i'r cyfarfodydd? Cyhoeddwyd y rhaglen ar 'Helo Bobol'. Oes rhaid iddynt ystyried apwyntio rhywun yn Swyddog Cyhoeddusrwydd?

RHWNG GŴYL A GŴYL

Gan fod Gŵyl Theatr Cymru 1979 yn y Sherman o Hydref 16 hyd Hydref 22 yr un wythnos ag yr agorodd Gŵyl Cwm Rhymni, nid oedd hi'n bosibl i'r Gymdeithas drefnu bws i'r theatr eleni. Er hynny fe aeth rhai o'r aelodau brwdfrydig i lawr i'r brifddinas ar eu liwt eu hunain i gael agor eu meddwl i gyfraniad Emrys ap Iwan i'n Cymreictod.

FFARWEL I PHYLLIS A MERÊD

Nos Wener yr un wythnos cynhaliwyd noson Gymraeg yr Wyl leol yng Nghanolfan Gymdeithasol Penyrheol. Cafwyd eitha cynulleidfa ac un a ymatebodd yn gynnes iawn i'r rhaglen. Noson hanesyddol oedd hon gan fod Merêd a Phyllis wedi penderfynu ymddeol o ganu'n gyhoeddus. Yng Nghaerffili felly y canodd y ddau am y tro olaf! Pwy ddaw i lenwi'r bwlch? Cafodd y ddau gymeradwyaeth pan gyhoeddodd y cadeirydd fod y ddau wedi cyfrannu eu tâl am y noson i addysg Gymraeg yn y cylch. Dymuniad llawer ohonom wrth ymadael oedd am ddegau o rai tebyg iddynt. Nefoedd wen, mi fuasai bywyd Cymraeg Cwm Rhymni yn cryfhau dros nos.

TRAFOD DAU LENOR

Yn sgil y dymuniad am fywiocach cyfraniad gan lawer o'r Cymry Cymraeg, mae'n rhaid curo cefn y rhai sy'n dal i gefnogi'n frwdfrydig y bywyd Cymreig. Hwy yw asgwrn cefn y Gymdeithas Gymraeg yng Nghaerffili a'r Cylch Diwylliannol. Eleni mae'r Cylch yn trafod "Dau Lenor — Waldo Williams a John Gwilym Jones" yng nghwmni W J Jones, Caerdydd. Dyma'r chweched flwyddyn i'r cylch gyfarfod a'r pumed dan arweiniad W J Jones. Syniad y Dr Meredydd Evans, pan ymunodd ag Adran Efrydiau Allanol Coleg Caerdydd ym Medi 1973 oedd sefydlu dosbarth yng Nghaerffili. Gwireddwyd y syniad, ac mae wedi cryfhau dros y blynyddoedd.

Daw rhywun i'r casgliad o glywed am y cylch mai'r wers yw, credwch yn rhywbeth ac fe lwydda.

# COFIA'R APÊL

# APÊL CLWB RYGBI CYMRY CAERDYDD

Mae'r clwb yma yn un unigryw yn hanes rygbi yng Nghymru. Fe'i ffyrfiwyd dros ddeng mlynedd yn ôl, ac er hynny bu criw o chwareuwyr yn cyfarfod mewn gwahanol ganolfannau yng Nghaerdydd. Eu hamcan:-

1) Chwarae rygbi disglair a mwynhau taflu'r bêl o gwmpas yn llwyddiannus.
2) Hyrwyddo'r iaith Gymraeg — iaith swyddogol y clwb.

**Erbyn heddiw mae'r clwb yn rhedeg tri thîm bron bob dydd Sadwrn yn ystod y tymor ond er brwdfrydedd yr aelodau, mae un rhwystr mawr i lwyddiant y clwb — mae'n galed iawn rhedeg clwb heb adnoddau cymdeithasol a'n canolfan ein hunain.**

Cafwyd eryn lwyddiant gan y clwb dros y blynyddoedd, chwarae yn erbyn timau lleoll o'r ddinas ei hun yn ogystal ag ymwelwyr fel Clifton, Brynaman a'r Aman. Mae rhai chwaraewyr enwog wedi chwarae dros y clwb (Billy Raybould, Bev Davies, Dewi Pws, a Dafydd Hywel) a bu Carwyn James yn llywydd am rai blynyddoedd, a rŷn ni wedi derbyn gwahoddiad wrth Carwyn James i deithio i'r Eidal i chwarae yn erbyn Rovigo y Pasg nesaf.

Mae sawl apêl gennym i'w wneud i drigolion Caerdydd a'r cylch. Fel pob mudiad arall (yn anffodus!) mae prinder arian yn rhwystro ein gwaith, a felly os byddech yn hoffi ymaelodi, mae croeso cynnes i chwi: chwaraewyr ac aelodau cymdeithasol (tâl £5), neu islywyddion (£10).

Yn ail mae angen cymorth ar y Pwyllgor Gwaith, sy'n cyfarfod unwaith y mis, ac aelodau sy heb fod yn chwarae i helpu ar ddydd Sadwrn — cario dwr, rhedeg y linell — ac yn y blaen.

Mae'r timau yn ymarfer o dan hyfforddiant bob nos Fawrth yn y Ganolfan Chwaraeon yng Ngerddi Soffia am 6.30, ac yn cymdeithasu wedyn a chyfarfod cyn gemau yn y Clwb Trydan yn Mhontcanna.

Wrth gwrs, ein nôd, yw cael ein clwb ein hunain — canolfan lle gallwn yn hawdd drefnu nosweithiau cymdeithasol Cymreig i Gymry Caerdydd. Os oes unrhyw fudiad eisoes a chanolfan debyg byddwn yn falch o dderbyn gwahoddiad i fynychu'r lle.

Dewch i gefnodi yr unig Glwb Rygbi Cymraeg yn y byd! Os gallwch ein helpu mewn unrhyw ffordd cysylltwch â:-

Wyn Williams,
26, Goldcrest Drive,
Cyncoed. Caerdydd 732359. neu

Dylan Jones,
16 Milford Close,
Tonteg. Tonteg (935) 5553.

Diolch yn fawr iawn.
Ein record y tymor yma yw:

| | Ch. | Ennill | Colli |
|---|---|---|---|
| Tim: 1 | 13 | 8 | 5 |
| 2 | 12 | 9 | 3 |
| 3 | 9 | 5 | 4 |

# YR AGORIAD

**Mae papur Cymraeg Dysgwyr Caerdydd, "Yr Agoriad", wedi ail ymddangos ar ei newydd wedd ac mae copïau i'w cael oddi wrth y trefnydd busnes, Alun Treharne, 43, Inglefield Avenue, Caerdydd — 30605. Ei bris ydy 10 Ceiniog. Y Golygydd ydy Tudor Williams, 39, Bishops Rd., Yr Eglwys Newydd. (Caerdydd 613697). Brodor o Fae Colwyn ydy Mr Williams ac y mae e'n athro Cymraeg yn Ysgol Esgob Llandaf. Brodor o'r Barri ydy Alun Treharne, y trefnydd busnes, ac mae e'n gweithio yng Ngwasg y Brifysgol. Trefnwyd Disgo Cymraeg yn y Clwb Roma, Churchill Way ar ddechrau Tachwedd i godi arian at gronfa'r "Agoriad". Daeth llawer ynghyd a chafwyd noson ardderchog. Buasai'r Golygydd yn falch iawn o dderbyn erthyglau ar gyfer "Yr Agoriad" oddi wrth ddysgwyr neu siaradwyr yr iaith.**

# O'R POST

Annwyl Ddinesydd,

Mae'n hen bryd i glybiau Cymraeg ar gyfer pob diddordeb gael eu sefydlu.

Felly, fel cam i'r cyfeiriad iawn, hoffwn ddod i gysylltiad ag unrhyw oedolyn Cymraeg ei iaith sy'n hoffi cerdded yn y wlad, gwersylla, teithio ar y cyfandir, ac ati.

Hefyd, os oes clwb Llydaweg yn y Ddinas ga i wybod amdano?

Yn gywir,
Niclas ap Glyn
135 Keppoch St
CAERDYDD

---

ANNWYL SYR,

Llongyfarchiadau i Gyngor Dinas Caerdydd. Anaml iawn, iawn ydw i'n gallu gweld unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan gyngor y Ddinas yn werth ei longyfarch ond y tro yma rydw i'n falch fy mod yn byw yn y ddinas. Y rheswm fy mod mor falch yw eu gwrthwynebiad i'r tîm rygbi o Dde Affrig.

Rydyn ni, yn enwedig, mae arna'i ofyn, ni Gymry Cymraeg, mor blwyfol, ac mae'n hen bryd i ni feddwl yn wir am bethau ar wahan i ni ein hunain a'n problemau bach ni. Mae'n gywilyddus fod y wlad yma yn rhoi cefnogaeth i'r drefn ffiaidd hiliol yn Ne Affrig drwy ganiatau i'r Barbariaid ddod yma.

Yr eiddoch yn gywir,

MARI STEPHENS
Llysfaen,
Caerdydd.

O.N. Beth tybed oedd agwedd ein capeli ni?

---

# LLYTHYRAU I'R DINESYDD

A wnewch chi roi'ch enw a'ch cyfeiriad pan fyddwch yn ysgrifennu llythyrau i'r Dinesydd os gwelwch yn dda. Os ceir enw a chyfeiriad 'P.P.' a anfonodd lythyr atom y 12fed o Dachwedd, fe ystyrir ei gyhoeddi — heb enw na chyfeiriad os dyma ddymuniad y llythyrwr swil.

Da gwybod ei fod yn ysgrifennu "Fel darllenwr selog o'r Dinesydd".

**PARTI NADOLIG Y DINESYDD:**

**GWELER TUDALEN CEFN Y PAPUR**

***FFONIWCH: 751469/ 756882/499469/563588***

# MANION O'R MYNYDD BYCHAN

**Y Dr. Ifan yn bwrw golwg dros bethau yn yr ysbyty.**

**"Ar rawd bell, rhodio y bu" y Dr. Ifan yn ddiweddar, yn ymweld ag ysbytai y tu allan i Forgannwg, ac y mae'n rhaid iddo ymddiheuro felly na chas e mo'r siawns i sgrifennu pwt i'r *Dinesydd* y mis diwetha. Gan taw newydd ddychwelyd i Gardydd y mae e, bu bron iawn iddo fe ffaelu â châl y siawns i g'meryd rhan eleni ym mherfformiad blynyddol Cymdeithas Gerddorol yr Ysbyty Athrofaol o'r 'Meseia', a dyna fyse siom ofnadw.**

UCHAFBWYNT CERDDOROL

**Ers rhai blynyddoedd bellach, un o uchafbwyntie'r flwyddyn gerddorol amatur yn y brifddinas yw'r perfformiad enfawr o'r 'Meseia' a gynhelir ar nos Sadwrn ym mis Hydref yn eglwys Sant Andreas, Parc y Rhath. Côr Cymdeithas Gerddorol yr Ysbyty sy'n ffurfio cnewyllyn côr y perfformiad, ac yn trefnu. Maen' nhw'n estyn croeso brwd yn flynyddol i gore erill yr ardal i ymuno â nhw i wneud un côr mawr ar y noson. Dyma weithgaredd mwyaf y gymdeithas gerddorol bob blwyddyn; ond nid dyma'i hunig un o bell ffordd. Mae'r Dr. Ifan yn dyall bod cyfres o gyngherdde amser cinio wedi'i threfnu fel arfer at dymor yr Hydref bob yn ail ddydd Llun am 1.00p.m. ym mhrif ddarlithfa'r Mynydd Bychan (sef awditoriwm gyda'r gwychaf yn y ddinas). Fe fydd y cyngherdde 'ma'n agored i'r cyhoedd ac fe roddan nhw gyfle, fel arfer, i nifer o gerddorion ifenc lleol — myfyrwyr y Castell ac ati — ymddangos yn gyhoeddus.**

Gyda shw wledd o gerddorieth wych, pwy yw'r Dr. Ifan bach 'ma i dimlo'n anhapus fod y posteri a phob dim sy'n ymwneud â'r "Hospital Music Society" yn unieth Saesneg — ac ynte wrth 'i ddwyieithog fodd wrth ganu hyfryted Saesneg y 'Meseia' bob cyfle?

Y RAG.

Ni fydde'r Hydref yn Hydref yng Nghaerdydd i'r Dr. Ifan mwyach heb 'Feseia' yr ysbyty. Ond mae brân i bob deryn du, yn ôl a glyw'r hen ddoctor, a mae rhwbeth arall sy'n bwysig yn yr Hydref i fyfyrwyr y Mynydd Bychan. '*Anencephalics*', eu rag nhw, yw hyn — eu siawns bob blwyddyn i ollwng stêm a chwnnu arian. Y llynedd, â Chardi o Aberystwyth, Huw Vaughan Thomas, yn drysorydd yr achos, fe godson nhw tua £3,000 at elusenne lleol, yn bennaf at yr Uned i Blant dan Anfantais yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, a godwd yn wreiddiol drwy ymdrechion *Anencephalics* y flwyddyn gynt. Eleni mae Cardi arall o Aberystwyth yn amlwg ar bwyllgor yr ymdrech, sef Cath Hughes — merch yr 'enwog' Dr. John Hughes, Aber. — a'i gobaith hi yw codi o leiaf gyment eleni. Fe fydd arian eleni yn mynd eto at elusenne lleol, yn bennaf at Hosbys newydd Dewi Sant yng Nghaerdydd. At y diben hwn, fe fydd pob math o ystrywie i hudo'r arian o bocedi pobol Cardydd, druen ohonyn nhw.

AELWYD GYMREIG.

Fe ddyle Cymdeithas Gymrâg yr Ysgol Feddygol hithe fod yn o withgar y tymor hwn hefyd. Fe gas y Dr. Ifan sgwrs yn ddiweddar â Siân Owen, myfyrwreg ar ei phedwaredd flwyddyn ac ysgrifenyddes y Gymdeithas eleni, ac mae e'n dyall bod rhaglen lawn ar y gweill, gan gynnwys ambell ddarlith feddygol yn y Gymrâg, partion ac efalle rhyw "Noson Geltaidd". Fe flasws e eitem gynta'r rhaglen, sef twmpath i groesawu'r gleision, a'i mwynhau'n fawr. Diolch yn fawr i Gwilym Roberts am y darn bach 'na o Gymru Fydd — yn troi'r "Med Club" yn aelwyd Gymreig am nosweth; Cymry ifenc y Mynydd Bychan yn medru bod yn Gymry am unweth, a'r Saeson ifenc wrth y bar yn sylweddoli'u bod nhw mewn gwlad dramor am unweth, a nifer da ohonyn nhw yn ymuno â'r Cymry yn y dawnsio hefyd. Do wir, fe chwysws yr hen Ddoctor 'ma beintie erbyn diwedd y noson!

YR UNED ARENNE

Ond wedi'r miri, 'smo'r un Gymdeithas Gymrâg, pa mor withgar bynnag y bo, yn mynd i fod yn ddim byd mwy na chymorth cyntaf diwylliannol yn y sefyllfa bresennol yn y Mynydd Bychan. Pan aiff Cymry Cymrâg ifenc yn fyfyrwyr i golege meddygol Llunden a Lerpwl, 'smo'r Dr. Ifan yn cwyno gyment pan na allan nhw wedyn drafod meddygeth ond yn iaith fain y Lloegrwys. Ond pan ddôn nhw i unig Ysgol Feddygol Cymru, fel "bechgyn bochgoch bach di-fai" Dafydd Iwan i'r ysgol gynt, a methu'r un peth....?

Fe fu'r Dr. Ifan yn bodio'r cylchgrone'n ddiweddar, a gweld rhifyn o'r "Gwyddonydd" oedd newydd gyrraedd. Chwarterolyn gwyddonol Cymrâg yw'r "Gwyddonydd", a chwarterolyn nodweddiadol Gymreig hefyd, sy'n dod mas mor hwyr withe nes peri i ddyn feddwl bod pethe fel 'Barn' neu'r 'Dinesydd' yn fodele o brydlonrwydd. Dyma, ym mis Hydref, oedd ei "Rifyn Mehefin" e. Wrth fodio tudalenne hwn, beth bynnag, fe gas yr hen Ddoctor syrpreis bach hyfryd o weld erthygl faith ynddo gan y Dr. Gerald Coles. Gŵr hyfryd yw'r Dr. Coles, a ddaeth aton ni dros Glawdd Offa yn feddyg ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Cardydd ac yn Gyfarwyddwr yr Uned Ddialysis yno, ac yn rhugl ei Gymrâg. Erthygl hir a diddorol sydd ganddo yn y "Gwyddonydd" ar waith yr Uned Ymchwil Arennol yng Nghaerdydd. Erthygl ddifrifol yw hon, wrth gwrs, ond fe welws y Dr. Ifan ddwy em fach o bytie mwy ysgafn ynddi. Yn gyntaf, fe ddatgela'r Dr. Coles fod peth o'r arian i godi'r Uned Ymchwil yng Nghymru yn y 60'au wedi'i gwnnu drwy apêl a wnawd droson ni yn y Wladfa; ac yn ail, fe ddywed e taw un o'r sgil-ddarganfyddiade a ddath o waith ymchwil 'i dim e ym maes trawsblannu arenne (a gorfod felly ddefnyddio tymeredde isel iawn) yw'r dull o ddefnyddio nitrogen hylif sy bellach yn cael ei ddefnyddio i ddi-fywiogi bomie terfysgwyr. Byd o ryfeddode, ondife?

Hyd tro nesa, Y Dr. Ifan.

## GENEDIGAETHAU

Daeth fflyd o blant bach i lonni aelwydydd Caerdydd a'r cylch yn ddiweddar. Croeso mawr iddyn nhw a llongyfarchion i'w rhieni balch a'u brodyr a'u chwiorydd.

- I John a Marged Cross ganwyd mab Ifan Tomos yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ar Medi 23ain, brawd i Lisa Gwyneth;
- I Peter a Helen Morgans (Bennet gynt) ganwyd mab;
- I Dafydd a Rhian Huws ganwyd mab, Aled Gwilym, brawd i Gwennan Mair yn Ysbyty'r Mynydd Bychan.
- I Rhodri a Christine Jones, yn Ysbyty Dewi Sant, ganwyd mab, William Rhys ar Hydref 29ain.
- I David ac Elonwy Wright, 24, Homelands Road, Rhiwbeina, ganwyd bachgen bach, Geraint Owen, brawd i Tanwen Mair, Tachwedd 3ydd.
- I Doug a Janet Terry, 9, Springfield Gardens, Treforgan, ganwyd merch fach, Anwen, ar Dachwedd 3ydd.
- I Arwel ac Eryl Mari Jones (née Edwards), merch fach, Gwawr Angharad, chwaer i Sioned Mair, yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

## LLYFR COCH SIÂN

**Un o'r llyfrau mwya diddorol i gael eu cyhoeddi'n ddiweddar ydy Llyfr Coch Siân gan Kathleen Wood, Clog-y-berth, Caerdydd.**

Mae gwreiddiau Kathleen ym Mhorthmadog, ac mae ei mam yn byw yno o hyd — cyfle iddi ymweld yn aml â'i gwreiddiau, a'i hymwybyddiaeth o'i gwreiddiau a barodd iddi hi fynd ati i roi'r llyfr wrth ei gilydd.

Ac mae'r stori'n ddiddorol. A'r cwestiwn cyntaf i'w ofyn ydy, "Pwy yw'r Siân yma?"

A dyma ni'n ôl gyda'r gwreiddiau'n syth. Achos, mae stori'r llyfr wedi'i lleoli mewn bwthyn yng Nghwmdyli, tua chwe milltir o Feddgelert, yn y flwyddyn 1846. Dyddiadur Siân, a oedd yn byw yn y tyddyn, gwraig go iawn, ydy'r llyfr. Ond dyma sy'n ddiddorol.

Roedd Siân yn hen nain i Mrs Wood — ac yn ferch ddeunaw yn 1846. Cyfnod caled, "y deugeiniau llwg" (hungry forties) Cawn olwg llawn atgofion ar y cyfnod trwy lygaid yr awdur, ond nid llyfr hanes mohono o gwbwl. Problemau beunyddiol Siân a gawn, a doedd hi ddim i wybod, ynghanol helbulon y flwyddyn honno ei bod yn sgrifennu hanes wrth sgrifennu ei dyddiadur.

Ond hanner munud. Go brin i Siân sgrifennu'r un dyddiadur erioed! Gwelodd Kathleen Wood ei hanes (Jane Jones erbyn hyn) yn Ngrysorfa'r Plant 1913—a dyma'r dychymyg yn dechrau cerdded. Trwy lwc, roedd cystadleuaeth dyddiadur dychmygol yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid yn ddiweddar — gan roi ysbardun i'r dychymyg.

Fe welwch y bwthyn o hyd yng Nghwmdyli, wedi ei adnewyddu erbyn hyn, ac yn dŷ haf i Saeson. Y tu ôl iddo, mae pwerdy trydan Cwmdyli — a'r ardal wedi'i gweddnewid yn llwyr. Ys gwn i beth ddywedai Siân Roberts pe dychwelai i'w hen fro?

Wn i ddim, ond mae ei hanes hi wedi tanio Kathleen Wood i fwrw ymlaen gyda'i llenydda, ac mae llyfr arall ar y gweill erbyn hyn.

A sôn am weill! Fe fydd rhai ohonoch, rywbryd, wedi ymweld â melin wlân Bryncir. Wedi prynu rhywbeth, falle, a chael bag i'w roi ynddo. Ar y bag, cewch lun o wraig mewn gwisg Gymreig wrth droell nyddu. Geneth ifanc un ar bymtheg oed yw'r wraig. Cafodd y llun gwreiddiol ei dynnu gan John Thomas, y ffotograffydd enwog. Mae yn awr yn Y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a cheir print ohono yng nghasgliad E.D. Jones o hen luniau a gyhoeddwyd rai blynyddoedd yn ôl. Roedd y ferch yma'n berthynas agos i Siân. Siawns nad oes gan honno, hefyd, stori, Kathleen....

# LLYFRAU NADOLIG I'R IFAINC

"Mae Gwasg y Dref Wen wrthi bellach ers yn agos i ddeng mlynedd, ond credaf mai hon yw eu rhaglen fwyaf uchelgeisiol eto", medd Roger Boore, cyfarwyddwr y wasg dra chynhyrchiol hon. Ac yn wir, dengys y rhestr ddaeth i law ddim llai na 15 o lyfrau sydd newydd ymddangos, tri yn adargraffiadau, ond y gweddill yn newydd sbon.

Pedwar llyfr a dderbyniwyd gennym ni i fwrw golwg arnynt; ceir dau Asterix, sef adargraffiad o *Asterix ym Mhrydain* a gyhoeddwyd gyntaf yn 1976, ac *Asterix yn y Gemau Olympaidd*, sy'n newydd sbon. Yna, llyfr newydd i'n plant ifainc, stori â lluniau, *Anrheg Pen-blwydd Nwca*, ac *Y Geiriadur Lliwgar*, geiriadur sy'n cynnwys dros fil o eiriau, pob un â llun lliwgar pwrpasol, a rhestr ohonynt yng nghefn y llyfr ynghyd â rhif yn cyfeirio at y tudalen lle gwelir y llun.

Mae'r cyfuniad o liw a llun a welir ymhob llyfr yn bleser, a mae'n sier y bydd y plant a fydd mor ffodus â chael y llyfrau hyn yn eu trysori yn fawr. Does dim rhaid sôn llawer am *Asterix*. Mae'r ffaith bod galw am adargraffiad o *Asterix ym Mhrydain* yn profi'i boblogwydd a mae'n sier y bydd ar argraffiad clawr papur, rhad hwn yn cael derbyniad da. Am yr ail *Asterix*, wel, mae e yn yr olyniaeth, ac yn profi unwaith yn rhagor allu rhyfeddol Alun Jones, nid yn unig a'i trosodd o'r Ffrangeg, ond a ddangosodd allu creadigol yn yr enwau 'Cymraeg' a roddodd i gymeriadau megis Odigymix, Crycymalix, ac Einharweinix, Gwych!

Stori hyfryd i'r ifainc yw *Anrheg Pen-blwydd Nwca*, sy'n llyfr swynol am fachgen bach o Esgimo a'i gi, a'r cyfan yn fywiog a gorffen yn hapus. Am y pedwerydd llyfr, hwn yw'r drutaf, ond gellir gweld i waith mawr iawn fynd i mewn iddo a bydd nid yn unig yn rhoi pleser, ond hefyd yn help mawr i gyfoethogi iaith y plentyn. Dyma'r pedwar felly:




*Asterix yn ennill llawryf y Gemau Olympaidd*

| | |
|---|---|
| Asterix ym Mhrydain. | £1.25 |
| Asterix yn y Gemau Olympaidd | £2.25 |
| Anrheg Pen-blwydd Nwca | £2.25 |
| Y Geiriadur Lliwgar | £3.50 |

Gwasg y Dref Wen

# Cartref i'r Cymry

Ar ôl hir ymaros mae Coleg y Brifysgol Caerdydd wedi dal i fyny â gweddill Colegau Prifysgol Cymru gyda sefydliad erbyn y flwyddyn academaidd hon o aden breswyl i Gymru Cymraeg a dysgwyr. Mae hen sôn wedi bod am gael neuadd breswyl yng Nghaerdydd fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr y Dinesydd mae'n siwr. Dechreuodd y gwaith o ddifrif ddwy flynedd yn ôl.

Bu cryn dipyn o ddadlau cyn llwyddo i benderfynu ar y nod gan fod dau bosibilrwydd o'u blaen; un ai neuadd gwbl newydd neu ran o'r neuaddau preswyl a oedd mewn bodolaeth yn barod. O'r diwedd fe benderfynwyd mynd am yr ail gynllun. Er mai cael neuadd ar wahan i Gymry yn unig fuasai wedi bod yn ddelfrydol, roedd ddigon hawdd gweld y buasai hyn yn cymryd blynyddoedd maith.

Cefnogwyd ni yn yr ymgyrch gan holl Undeb y Myfyrwyr ond nid dyna oedd diwedd y mater. Roedd rhaid cael cefnogaeth awdurdodau'r Coleg a gwyddom yn iawn mor hawdd fuasai iddynt sathru'r cynllun efallai nid ar sail egwyddor ond am resymau gweinyddol a fyddai wrth gwrs yn llawer anoddach i'w hymladd. Diolch fyth, am unwaith ni ddigwyddodd y gwaethaf — a dweud y gwir roedd yr Awdurdodau'n bur gefnogol ac oherwydd hynny mae'r Aden mewn bodolaeth erbyn y flwyddyn yma.

Mi fydd yn bosib nawr i drefnu mwy a gwell gweithgareddau Cymreig i fyfyrwyr Cymraeg ac i ddysgwyr. Bydd hefyd yn llawer hwylusach i gysylltu â chymdeithasau a gweithgareddau fel y Dinesydd sydd tu allan i gylch cyfyng myfyrwyr.

Mae bodolaeth yr Aden yn ddyledus i lawer iawn o bobl sydd wedi gweithio'n ddygn. Hoffem ddiolch iddynt i gyd ac yn arbennig i Dr. Gwilym ap Roberts sydd yn ddarlithydd yn y brifysgol. Mae ef wedi llafurio'n galed dros gael cartref i'r Cymry yng Nghaerdydd.

# Yn yr Eglwys Newydd: Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

**Er gwaethaf y darogan a fu — mai bywyd anodd iawn oedd i fod i'r Ysgol Gymraeg — buan y tawelodd y gau-broffwydi. Ac o ddarllen heddiw, bron ar ddiwedd y tymor cyntaf, rai o'r adroddiadau a ymddangosodd yn y wasg dros gyfnod o ddeunaw mis cyn agor yr ysgol, wel — maen' nhw'n destun sbort.**

Roedd y prifathro (D Gareth Evans) a'i ddirprwy (Mrs M Robins) wedi'u hapwyntio erbyn diwedd Tymor yr Haf. Yn ystod y gwyliau fe apwyntiwyd Mrs M Evans, Caerdydd (Harlech gynt) a Miss J Davies, Coleg Addysg Uwch Gorllewin Morgannwg (yn enedigol o Aberaeron).

Ysgol y Wladwriaeth ydy hon sy'n cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg De Morgannwg — Awdurdod sydd wedi rhoi pob cefnogaeth i'r fenter newydd hon.

Ar hyn o bryd, adran i blant bach yn unig sydd yma. Y nod ydy tyfu'n flynyddol drwy dderbyn dosbarth newydd o blant sy wedi bod i ysgolion meithrin Rhiwbeina, Y Waun, Yr Eglwys Newydd ac Ystum Taf. Ond mae 'na "swae yn y pentref" y bydd holl blant dalgylch Melin Gruffydd yn dod yma ym mis Medi 1980!

Rydyn ni wedi cael dechrau addawol. Gyda'r ewyllys da sy wedi'i ddangos eisoes — gan Ysgol Gynradd Eglwys Wen (sy ar yr un campws â ni) a'r gymdeithas yn gyffredinol — a chyda bodolaeth Cymdeithas Athrawon a Rhieni brwdfrydig, fe awn ymlaen o nerth i nerth.

# Rydw i'n siarad Cymraeg

**Mae'r term, TYFU'N GYMRO yn gyfarwydd erbyn hyn. Pobl yn cael eu codi ar aelwydydd di-Gymraeg yn troi, am ryw reswm neu'i gilydd, at yr iaith ac yn ei siarad yn feunyddiol. Mae llawer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* wedi gwneud hyn a theimlwyd mai peth da fyddai gofyn i ambell un sut y digwyddodd y troi. Nesta Jones ddaeth o hyd i'r gynta — ym mherson Judith Waters.**



**Mae brwdfrydedd dysgwyr dros y Gymraeg a thros faterion Cymreig yn destun edmygedd bob amser, ac yn ddigon i godi cywilydd ar rai ohonom sy mor aml yn syrthio i ddifaterwch tuag at y Gymraeg a'i phethe.**

Fe gwrddais i â Judith Waters am y tro cynta dair blynedd yn ôl, a thyfu i edmygu'n fawr ei hymroddiad a'i dyfalbarhad i ddysgu Cymraeg. Penwythnos y Glas yn Aberystwyth oedd hi, a phawb wrthi'n brysur yn ceisio dod i adnabod pawb arall, ac yn holi os mai cynddisgybl o Rydfelen neu o Ystalyfera oedd y myfyriwr nesa atyn nhw wrth y bwrdd bwyd ym Mhantycelyn! Roedd clywed bod rhywun yn dod o Ysgol Esgob Llandaf yn peri cryn syndod, a dweud y lleiaf.

Ond rhaid mynd yn ôl i'r dyddie cyn Aberystwyth. Er mai Saesneg oedd iaith cartre Judith, magodd ddiddordeb mawr mewn dysgu Cymraeg. Astudiodd Gymraeg tan Lefel O o dan gyfarwyddydd Mrs Ann Davies, athrawes y mae Judith yn cydnabod iddi fod yn gryn ddylanwad arni. Penderfynodd barhau i astudio Cymraeg nes Lefel A a chafodd ddau athro'r tro hwn, sef Mr Tudur Williams a Mr Nefydd Thomas. Mynychodd wersylloedd yr Urdd i ymarfer ei Chymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.

Ei dymuniad oedd parhau ei haddysg mewn awyrgylch Gymreig, ac aeth i Aberystwyth i astudio Cerddoriaeth fel pwnc gradd. Erbyn hyn mae'n gwneud gwaith ymchwil mewn cerddoriaeth.

Er nad oedd Judith yn teimlo'n or-hyderus yn siarad Cymraeg pan ddechreuodd hi yn Aberystwyth, roedd hi'n benderfynol ei bod hi'n mynd i feistroli'r iaith, ac roedd hi'n rhugl erbyn y Nadolig yn awyrgylch Pantycelyn.

Prin y dywedech mai Cymraes yw hi wrth edrych arni. Mae ei gwallt hir, golau, yn peri ichi feddwl bod gwaed Sgandinafaidd yn hytrach na gwaed Celtaidd ynddi. Ond does angen ichi ond gwrando arni i glywed Cymraeg gloyw, tafodieithol. Mae wedi croesi'r bont ers tro byd, ac yn gyrru ar garlam drwy ei thir newydd.

Fe wyddoch beth ddywedodd yr hen Bant:

"Dyn dieithr ydwyf yma.
Draw mae ngenedigol wlad."

Mae'n dda gweld i Bantycelyn Aber beri i Judith deimlo mor bendant nad "dyn dieithr" ydoedd hi — ac mae erbyn hyn yn trigo yn ei genedigol wlad yng ngwir ystyr y geiriau.

## WRTH AROS GODOT

Dyddiad diddorol i'ch calendr yw Ionawr 19, 1980. Ar y Sadwrn hwn, perfformir Wrth Aros Godot yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg (Coleg Cyncoed, gynt) gan Gwmni'r Dewin, Caerfyrddin. Mae hwn yn berfformiad chwyldroadol, gyda'r cyfan yn cael ei osod mewn syrcas. Er mwyn egluro'i syniadau, mae'r cynhyrchydd, Mr James Jones, gyda'i actorion, yn dod i ysgol bnawn yn y coleg... cyfle i ni weld y set a thameidiau o'r ddrama yn cael ei rhoi wrth ei gilydd. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Mr W.J. Jones, 46, Heol Crystalwood (756282) am ragor o wybodaeth. Cyfeillion y Theatr sy'n trefnu'r fenter. (Gyda llaw, mae'r perfformiad yn dechrau yn y coleg am 7.30pm (tocynnau: £1) Ac mae posib ichi gael pryd o fywyd yn y coleg am £1.50; pryd poeth fydd e. Ffordd ddifyr o dreulio pnawn a nos Sadwrn.

## BYD Y PLANT BYCHAIN

Cafwyd noson hynod ddifyr yng Ngholeg Cyncoed nos Iau, Tachwedd 8, 1979. Roedd Myra Jenkins ac Eleri Rogers yno i sôn am lyfrau plant, a chafwyd gwledd o sgwrs, dadl a gwybodaeth. Grŵp bychan sy â diddordeb mewn llyfrau plant a ddaeth ynghyd a bydd yn cwrdd eto yn Ionawr. Mae croeso i bawb ac os oes diddordeb gennych chi, cysylltwch ag Elen Ogwen yn y Coleg (751345).


Da gan Philip Morgan a'i Fab Cyf., allu dweud bod gwin bord 'Calon Lân' nawr ar eu rhestr. Cyfuniad Ewropëaidd yw hwn, wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i mosel. Prif bwrpas cyflwyno'r gwin hwn wedi'i labelu'n gyfangwbl yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren yw £1.79.



CALON LÂN®

CYFUNIAD O WINOEDD O WLEDYDD Y GYMUNED EWROPËAIDD

Wedi'i Botelu Gan

**Richard Trimborn, GmbH, Bad Kreuznach,** YR ALMAEN

**PHILIP MORGAN A'I FAB, CAERDYDD** **70 cl e**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**

Prif Farsiandïwr Gwin Caerdydd

126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

# BLWYDDYN YN FFRAINC

**Eleni, cefais y fraint o dreulio blwyddyn yn Ffrainc fel rhan orfodol o'm cwrs gradd mewn Ffrangeg yn Aberystwyth. Bu hi'n flwyddyn fythgofiadwy — nid yn unig fe wnaeth wahaniaeth syfrdanol i safon fy Ffrangeg llafar ('roeddwn hyd yn oed yn breuddwydio yn Ffrangeg ar ôl tymor!) ond 'roeddwn yn teimlo erbyn y diwedd bod fy amgyffred o fywyd yn un llawer lletach wedi edrych am flwyddyn drwy sbectol diwylliant gwahanol, ac na fyddai astudio llenyddiaeth Ffrangeg fyth yr un fath ar ôl cael gweld drosof fy hun y modd y mae'r meddwl Ffrengig dyrys yn gweithio.**

'Roeddwn yn byw mewn tref ganolig ei maint o'r enw Laval sydd hanner ffordd rhwng Paris a Rennes ac yn 'département' Mayenne. Nid yw yn Llydaw, yn Normandi nac yn ardal y Loire, ond yn hytrach rhywle yn y canol, yn rhyw fath o 'dir neb' rhwng y rhanbarthau hyn i gyd, eto'n berchen ar gymeriad pendant ei hunan, cymeriad llawn hud a chwedloniaeth. 'Roedd y dref ei hunan yn hardd a hynafol iawn gyda'r afon Mayenne yn llifo drwyddi a chastell hynod o debyg i Gastell Coch yn llochesu ar ei glannau. Wrth gerdded i lawr y 'grand rue', sef y stryd leiaf yn y dref, fe dybiech eich bod nôl yn y canol oesoedd wrth edrych ar yr hen dai o ddeutu.

'Roeddwn yn ennill fy nhamaid yno drwy weithio fel 'assistante' Saesneg mewn 'lycée polyvalent' fawr, sef math o ysgol uwchradd sy'n cyfateb fwy neu lai i'r hen ysgol ramadeg yma. Golygai hyn gymryd grwpiau trafod bychain, a chan fod y gwersi hyn yn wirfoddol 'roedd y disgyblion a fentrai yno yn frwdfrydig ar y cyfan ac yn barod i drafod unrhyw destun, o'r frenhines i ddyn y lleuad! Yn wir, 'roedd rhai ohonynt yn tybied eu bod yn gwybod mwy na'u hathrawes am y Saesneg!

Hefyd yn yr un ysgol 'roedd 'assistante' Almaeneg ac fe dreuliasom oriau difyr yn sgwrsio (yn Ffrangeg, oherwydd dyna'r unig iaith oedd yn gyffredin i ni) am Gymru a'r Almaen, gan synnu yn aml at y tebygrwydd rhwng y ddwy genedl yn enwedig yn eu hoffter o ganu.

Yn ystod y flwyddyn fe gefais gyfle i grwydro tipyn a chwrdd â phob math o bobl ac 'roedd hyn ynddo ei hun yn brofiad ac yn agoriad llygad ar adegau. Un cymeriad diddorol iawn a gwrddais oedd hen wreigan yn tynnu tua'r pedwar ugain yn byw mewn bwthyn llwm yn y wlad, yn eistedd yn ei chadair siglo yn smygu'i phib ac yn adrodd straeon. Fe'm hatgoffai o Nansi'r Nant Daniel Owen.

Sylwais bod y Ffrancwr ar y cyfan yn gymeriad unigolyddol ac annibynnol iawn ei farn am bethau. Nid yw'n or-hoff o ymgasglu gyda'i gyd-wladwyr heblaw i yfed efallai ond yn hytrach mae'n well ganddo aros yn ei dŷ ei hun gyda'i deulu. 'Roeddwn yn gweld hyn yn wahanol iawn i Gymru lle mae pobl yn agored iawn ac ond yn rhy barod i ddod at ei gilydd i gymdeithasu, boed i'r capel, i'r ddrama, i'r gêm rygbi neu i'r dafarn. Hefyd, er cystal y bwydydd a'r gwinoedd, cefais fy siomi ychydig o sylweddoli pa mor arwynebol yw syniad y Ffrancwr sut i gael y gorau allan o fywyd. Os caiff ddigon i'w fwyta ac yfed mae'n hapus ac mae'n ystyried bod y Prydeiniwr yn colli llawer o rin bywyd am nad yw'n talu'r un sylw ag yntau i'r pethau hyn. *

Diddorol iawn oedd cymharu'r sefyllfa grefyddol yn Ffrainc a Chymru. Er cryfed Pabyddiaeth ar un adeg yn Ffranc ac yn arbennig yn Llydaw, erbyn hyn mae ei ddylanwad yn gwanhau o genhedlaeth i genhedlaeth ac o holi'r plant yn yr ysgol, sylweddolais mai prin y meddylient am grefydd o gwbl, a bod athroniaethau seciwlar yn prysur ennill eu plwyf yn eu meddyliau. Yn waeth byth, sylwais bod Ocwltiaeth yn dod yn atyniad mwy a mwy poblogaidd gyda 'séances' yn cael yr un lle amlwg â'r 'Seiat' yng Nghymru ers talwm. Ar y llaw arall, mae gobaith i'w weld o du'r 'Mudiad Charismataidd' o fewn yr Eglwys Babyddol sy'n rhoi pwyslais mawr ar weddi a doniau'r Ysbryd Glân; hefyd yr eglwysi efengylaidd sy'n codi ymhob cwr o'r wlad. Bu nifer o Gymry megis y Parchedig Caradog Jones yn cenhadu yn Llydaw yn ystod y ganrif ddiwethaf, ac erbyn heddiw mae o leiaf un eglwys efengylaidd yn y rhan fwyaf o'r trefi mwyaf yno. Cefais y pleser o ymuno â thwr o Gristnogion Llydewig mewn encil ysbrydol yn St. Lunaire, tref ar arfordir Gogledd Llydaw, ac yn wir 'roeddwn yn teimlo'n agos iawn atynt oherwydd undod cred a thebygrwydd diwylliant.

Ond er nad yw crefydd yn bwnc trafod llosg iawn hyd y gwelaf i, yn sicr ddigon, mae'r Ffrancwr wrth ei fodd yn trafod gwleidyddiaeth. Mae hyd yn oed disgybl pymtheng mlwydd oed mewn 'lycée' yn abl i draethu'n huawdl am beirianwaith sustem wleidyddol Ffrainc a'r datblygiadau diweddaraf. Yn y prifysgolion y mae'r trafod hwn yn cyrraedd ei uchafbwynt, fel y dengys 'chwyldro' y myfyrwyr ym Mharis ym Mai 1968, ac mae pwysau mawr ar y myfyrwyr i droi'n Gomiwnyddion. Ar adegau teimlwn y pwyslais hwn ar wleidyddiaeth yn llethol.

A sôn am Baris — dyna ddinas a aeth â'm bryd yn llwyr eleni. Mae'r cofadeiladau, y 'boulevards' llydain, afon Seine a'r goleuadau llachar yn hudo dyn ac am gyfnod 'roeddwn yn teimlo mod i mewn rhyw fyd hollol afreal wrth gerdded i lawr y 'Champs Elysées' liw nos. Yn fy marn i, mae'n rhagori llawer ar Lundain, er bod y Ffrancwr yn barod i ddadlau bod Llundain yn well! Ac yno yn ystod gwyliau hanner tymor y Nadolig y cyfarfûm â grwp o Ysgol Rhydfelen o dan arweiniad yr hanesydd enwog Hywel Jeffreys, a chawsom ein tywys i weld nifer fawr o ryfeddodau'r ddinas a'n goleuo ynglŷn â'u hanes. Os byddwch ym Mharis ryw dro, un profiad byddwn yn ei argymell yn gryf fyddai trip mewn cwch i lawr i afon Seine fin nos. Mae'n fendigedig!

Fe sylweddolais eleni faint o ragfarnau a rhagdybiaethau sydd gennym yn erbyn pobl o genedl wahanol. Mae gan y Ffrancwr lond gwlad o jôcs am frodoriaid gwlad Belg sy'n hynod o debyg i'n jôcs ni am Wyddelod, a phan ofynnais i un o'm disgyblion i eleni beth a feddyliai o'r Saeson yn gyffredinol, ei ateb parod oedd nad oedd yn eu hoffi am iddynt losgi Jeanne d'Arc! A phan ofynnais i un dosbarth faint ohonynt oedd wedi blasu coesau llyffantod, siomedig iawn oedd yr ateb. Os bu i mi ddysgu rhywbeth eleni, dysgu gwerthfawrogi diwylliannau gwahanol, boed Ffrengig, Almaenig neu Seisnig oedd hwnnw.

Byddai angen cyfrolau arnaf i groniclo holl hynt a helynt fy mlwyddyn yn Ffrainc. I gloi, y cwbl fedraf ddweud yw mod i'n teimlo' mod i'n gyfoethocach person o'i phlegid ac yn diolch am weledigaeth y gyfundrefn addysg (am unwaith!) yn caniatâu'r fath flwyddyn i fyfyrwyr ieithoedd tramor.

**Nia Humphreys**

* Cofiwch, mae'n rhaid cyfaddef bod y Ffrancwr yn arbenigwr ar baratoi bwydydd blasus. Anghofia'i fyth fwyd môr, 'galettes' a 'crêpes' Llydaw; y bara, pâtés a'r tomatos bendigedig a'r gâteaux' oedd yn ei gwneud hi'n amhosibl i basio 'pâtisserie' heb gael fy nhemtio. Fodd bynnag, cyfrinach y Francwr wrth goginio yw'r hyn mae'n ei ychwanegu at y bwydydd, pethau fel garlleg, madarch, olew a saim a'r sawsiau bendigedig. Mae ychwanegiadau fel y rhain yn medru gwneud y byd o wahaniaeth i bryd. Ac heb anghofio'r gwin! Roedd glasiad o win da wedi ei oeri gyda'r bwyd yn anhepgorol i unrhyw Ffrancwr gwerth ei halen.

## MYM


Dirwyn y tymor i ben gyda gweithgareddau brwd mewn llaw at y Nadolig, ac yn barod mae caneuon Sion Corn i'w clywed ar yr awyr, wrth fynd o gwmpas. Mae Mrs Teleri Gray yn ymddeol o gadair y Pwyllgor Sir. Hoffwn ddiolch iddi yn gynnes am ei chefnogaeth a'i diddordeb dwfn ymhob agwedd o'r gwaith. Ar yr un pryd croesawn Mr Billy Raybould, Cadeirydd newydd Y Pwyllgor Sir.

Fel arfer mae pwysau ariannol trwm iawn ar yr ysgolion meithrin. Felly derbyniwyd gyda llawenydd mawr y rhodd anhysbys o £300 a ddaeth i law yn ddiweddar. Hoffwn ddiolch yn gynnes iawn drwy'r Dinesydd i'r person neu bersonau caredig am y rhodd haelionus hon. Gellir bod yn sicr y bydd y dwyn ffrwyth ar ei chanfed.

Daeth cais diweddar i law am gylch meithrin Cymreig iw gynnal drwy'r dydd ar gyfer plant rhieni sydd yn gweithio. Os gwyddoch am unrhyw un sydd eisiau gwasanaeth o'r math yma gofynnwch iddynt gysylltu â fi ar unwaith. Hefyd os gwyddoch am adeilad addas hoffwn wybod amdano.

Cynhaliwyd cwrs arbennig o dda yn ystod y tymor i athrawon yr ysgolion meithrin; hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael o'u hamser i wneud y cwrs yn llwyddiant.

Avril Jones (Ffôn: 757514/612290)
Swyddog Datblygu.



# Ysgol Glantaf

**Gyda'r newydd ddyfodiaid, yn athrawon a disgyblion, wedi llwyr ymgartrefu yn yr ysgol argoela'r ail flwyddyn fod yn llawn prysurdeb fel y flwyddyn gynta.**

Bu dyfodiad Mr Peter Manning fel Pennaeth Adran Chwaraeron ac Ymarfer Corff yn gryn gaffaeliad ac nid oes awr ginio nad yw ef a Miss Brenda Thomas (athrawes Ymarfer Corff a Chwaraeon y Merched) wrthi yn ymarfer gyda charfan o ddisgyblion boed yn rygbi, peldroed, pel-rwyd, hoci, rhedeg traws gwlad, neu ymnasteg. Cânt gymorth parod eraill o'r athrawon i ddiwallu brwdfrydedd y disgyblion — Miss Einir Wyn Davies, Mrs Julie Morse, Mri Alan Jones, Bryn a'r Dr. Graham Bowen heb anghofio'r prifathro Mr Malcom Thomas sydd wrth gwrs yn ddyfarnwr profiadol i undeb Rygbi Cymru.

Mae Côr yr Ysgol, dan arweiniad medrus Mr Alun Guy, yn mynd o nerth i nerth gyda bron dau gant o'r dysgyblion yn mynychu'r ymarfer yn gyson. Cynhelir y gwasanaeth Naw Llith a Charol Nos Iau, Rhagfyr 13eg yn Eglwys yr Holl Saint, Ystum Taf. Cyflwynir y casgliad yn y gwasanaeth hwn i gronfa Uned Arennau yr Ysbyty Brenhinol.

Amheuthun oedd gweld cynifer o blant Glantaf yn cystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd (Eisteddfod Cyfeillion y Theatr Gymraeg), a gynhaliwyd yn Rhiwbeina Sadwrn Tachwedd 24ain.

Mae'r ysgol yn ffodus dros ben i gael Cymdeithas Rieni/Athrawon weithgar yn gefn iddi. Cadeirydd y gymdeithas am eleni yw un o'r athrawon — Mrs Bethan Roberts. Eleni gosodwyd nod o dair mil o bunnoedd i'r gymdeithas — mil yn fwy na'r llynedd.

Rhaid canmol y disgyblion am eu hymdrechion i godi arian tuag at achosion elusengar. Bob wythnos fe fydd y capteniaid dosbarth yn casglu ceiniogau'r plant tuag at Gronfa Cymorth Cristnogol. Eisoes trosglwyddwyd siec o £40 i'r Parch Wyn Vittle, trefnydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru, ac yn fuan trosglwyddir siec arall mwy sylweddol i'r gronfa hon.

Tro'r Urdd fydd hi'r tymor nesa pan obeithir codi swm teilwng gyda'r cardiau casglu 'Punt y Pen'.

Bu Mrs Janet Ogwen, Pennaeth yr Adran Gymraeg a Mr Alan Jones Pennaeth yr Adran Saesneg yn brysur yn gosod trefn ar lyfrgell yr ysgol. Gwnaed apel mewn rhifyn blaenorol o'r 'Dinesydd' am roddion i'r llyfrfell ac rydym yn ddiolchgar i rai cyfeillion caredig am eu hymateb. Os tybiwch chi fod gennych gyfrolau Cymraeg a allai fod o ddefnydd i'r ysgol a bod angen eu lle arnoch yn eich cwpwrdd llyfrau dowch i gysylltiad â'r Prifathro neu unrhyw aelod o'r staff. Ffôn: 562879)

Cafwyd telyn arall ar fenthyg i'r ysgol trwy garedigrwydd y Parch a Mrs Ifan R. Williams, Llandaf. Gwerthfawrogir haelioni fel yma gan delynorion ieuanc Ysgol Glantaf a hyfforddir yn wythnosol gan Mrs Siân Morgan Thomas.

Cyn diwedd y flwyddyn addysgol hon bydd criw o ddisgyblion dan arweiniad eu hathrawes Ffrangeg Mrs Bethan Lewis yn ymweld â Naoned (Nantes) yn Llydaw.

**GWESTY LLETY CYMRO**
143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659
**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**
TRWYDDED PRESWYL

# Y duwiau, y Groegwyr a Theatr Caricature

Yn ei nodiadau rhaglen ar gyfer OF GODS AND GREEKS, fersiwn newydd o stori'r Cread, dywed Jane Phillips, "Nawr ac yn y man rhaid i theatr i bypedau ymestyn ei gewynnau, edrych am ddelweddau newydd, arbrofi." Aeth wyth mlynedd heibio er noson agoriadol BLODEUWEDD Theatr Caricature yn Eisteddfod Bangor ac (ac eithrio DIC PENDERYN Theatr yr Ymylon) ni'm cynhyrfwyd gymaint gan gynhyrchiad gan theatr Gymreig oddi ar hynny. Yn gyntaf gyda TAITH y PERERIN, wedyn gyda BLODEUWEDD, ac yn awr gyda OF GODS AND GREEKS, dengys Jane Phillips mai hi yw'r ddawn frodorol fwyaf soffistigedig a gwreiddiol o bell ffordd sy'n gweithio yn y theatr yng Nghymru. Yn ogystal â'i chynyrchiadau hyfryd ar gyfer plant, llwydda i'n synnu dro ar ôl tro gyda'r modd y mynega syniadau a theimladau y tybiasai dyn eu bod y tu hwnt i gyrraedd theatr bypedau.

Y mae dylunwaith Graeme Galvin, y sgript rymus, y detholiad o gerddoriaeth a'r traethu gwych gan Arthur Phillips yn cyfuno i beri i ddyn deimlo fod OF GODS AND GREEKS yn gyfres o beintiadau hardd yr anadlwyd bywyd i mewn iddynt. Ac ar ôl y syndod dechreuol o sylweddoli fod dyn yn mynd i allu gweld pennau noeth yr actorion du eu gwisgoedd drwy gydol y perfformiad, â'n bleser ychwanegol i wylio'r modd yr ymdaflant yn llwyr i ddehongli'r cymeriadau drwy eu pypedau.

Er gwaethaf yr anawsterau sydd fel pe baent yn rhemp gyda'n cwmniau theatr yng Nghymru, y mae Caricature wedi goroesi ers pymtheng mlynedd bellach, a thyfodd ei gymhorthdal gwreiddiol o £750 gan Gyngor Celfyddydau Cymru y gyson nes cyrraedd y ffigur presennol o £65,000. O na ellid cadw actorion y cwmni gyda'i gilydd yn ddigon hir i sierhau bod yr holl repertoire ar gael beunydd, fel y gellid cyffroi a llonni dychymyg cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o gynulleidfaoedd Cymreig gan y fath safon o ragoriaeth. B.D.

**(Ie, ac o! na ellid cyflwyno'r perfformiadau ardderchog hyn yn Gymraeg hefyd- Golygydd)**



**CRONOS, y brenin gwallgof gyda'i wraig RHEA, a'i fab (yn "Of Gods and Greeks")**

# Rhinwedd fawr nofel dda

**Ceir cyfoeth o themâu diddorol sydd yn ormodedd bron yn nofel newydd Geraint Vaughan Jones, *Y Ffoaduriaid*. Yn erbyn cefndir yr Ail Ryfel Byd, cyffyrddir ag ymateb cymdeithas wledig Gymraeg i'r estroniaid a ddaw i fyw ynddi, megis y prif gymeriad, yr Almaenes Eva Wolff, Saeson yn dianc o drefi mawr Lloegr, merched Byddin y Tir, carcharorion rhyfel o'r Eidal, ac ymateb y ffoaduriaid i'r gymdeithas honno.**

Dim ond un agwedd yw hon o effaith ehangach rhyfel ar gymdeithas ac unigolion. Mae'r stori'n cwmpasu profiadau Idwal Price, Cymro ifanc a fu'n ymladd yn Sbaen ac a glwyfwyd yno, dioddefaint trueiniaid yng ngwersylloedd marwolaeth y Natsiiaid, euogrwydd rhai Almaenwyr am y troseddau a gyflawnwyd yn eu henw a gwewyr meddwl Idris Gruffydd, peilot ifanc o Gymro a gymerodd ran yn y cyrch awyr erchyll ar Dresden. Ac o gwmpas y cwbl, ceir gwead perthynas pobl â'i gilydd, casineb gorffwyll John Evans yn Fron at Eva, cariad Eva ac Idris, problemau priodasol Idwal a Dilys, a phryder Eva am ei mam sydd yn dal ar ôl yn yr Almaen.

Y mae'r amrywiaeth cefndir, sydd mor ddiddorol o bell, yn troi'n feichus ar brydiau ac yn troi'n dalpau amrwd o hanes yn hytrach na rhywbeth a dysgwn yn naturiol o rediad y stori. Un enghraifft o hyn yw'r crynodeb o ddadrithiad Idwal yn Sbaen (tt. 42-3); yr hyn a gawn mewn gwirionedd yw dedfryd yr awdur ar y cyfnod hwnnw mewn hanes, ac ef, nid Idwal, sy'n siarad er rhoi'r geiriau yng ngenau'r cymeriad. Enghraifft arall o lais yr hanesydd yn llefaru'n rhy ymwthiol glir yw'r sôn am Dresden (tud. 169), yn y paragraff sy'n dechrau "O dipyn i beth cyffrowyd cydwybod y byd..."

Hyd yn oed pan yw'r awdur yn ysgrifennu am hyn fel nofelydd, yn sôn am Hermine Wolff yn ffoi am ei bywyd rhag y bomiau, yr awdur, nid Frau Wolff sy'n gweld y gyflafan yn digwydd ac yn ei disgrifio er mwyn ei ddarllenwyr. Fel pe bai'n cydnabod hynny, try'r traethu i'r amhersonol: "gwelwyd y fflamau ynghanol y mwg", "Sychwyd miloedd gan y gwres", "Drylliwyd cewyll y sŵ", ac yn y blaen. Dyma ddisgrifio ail-law gan rywun sydd wedi darllen am y digwyddiad mewn llyfr hanes, nid crefft y nofelydd o ail-greu'r olygfa drwy lygaid y cymeriad sydd i fod wedi byw drwy'r profiad. Unwaith eto, mae'r nofelydd wedi troi'n groniclydd hanes.

Mae gwendidau eraill yn strwythur y nofel. Y mae'r gymeriadaeth yn wan iawn ar brydiau, gyda chymeriadau yn gwneud a dweud pethau digon rhyfedd, sydd yn fynych yn gwbl "allan o gymeriad", megis haerllugrwydd Eva yn beiddio beirniadu bywyd personol Jessie Morton, a chyffes ffantastig John Evans wrth Eva. Y berthynas fwyaf argyhoeddiadol yw honno rhwng Eva ac Idris, ac y mae ynddi bosibiliadau cyfoethog: y tensiwn nid yn unig rhwng yr Almaenes a'r "gelyn" sydd wrthi'n difrodi ei gwlad, ond rhwng Eva a'i hunan, tyndra merch sy'n ofni caru eto ar ôl profiadau erchyll y gorffennol. Ond rywfodd, nid yw'r berthynas hon hyd yn oed yn hollol foddhaol, yn fyw ac yn naturiol.

Fel gyda chymaint o nofelu Cymraeg prennaidd eu cymeriadaeth, gellir rhoi llawer o'r bai am hyn ar iaith glogyrnaidd ac annaturiol y cymeriadau. Un gwendid yw tuedd yr awdur i ailadrodd sgwrs ei gymeriadau yn lle gadael iddynt siarad yn uniongyrchol; ai am ei fod yn anhapus yn ysgrifennu dialog? (Choelia'i fawr: beth am olygfeydd byw iawn megis honno yn nhafarn y pentre tt. 78-80, lle mae Wil Bowen yn achub cam Eva ac yn rhoi crasfa eiriol a chorfforol i John Evans yn y broses, mewn dialog afieithus?)

Bai arall sy'n deillio o'r gormod adrodd hwn yw tipyn o gawlio gydag amserau'r ferf o bryd i'w gilydd; y camgymeriad mwyaf cyffredin yw defnyddio'r gorffennol pan fyddai'r amherffaith yn llawer gwell. Ceir enghraifft wahanol o ysgrifennu carbwl ar dudalen 122:

"Oherwydd y cur yn ei phen, ni allai ond hepian. Yna llyncodd gwpwl o dabledi. Y tro nesaf, gofynnai am soser a llwy a'u malu nhw'n bowdwr. Aeth i lawr yn haws mewn llwyaid o jam."

Wedi malu'r soser a'r llwy'n bowdr, a chael Eva i fynd i lawr mewn llwyaid o jam, mae'r awdur wedi llwyddo i gawlio'n llwyr rhwng yr amodol a'r gorffennol hefyd, nes gwneud yr holl beth yn ddigon disynnwyr.

Manion, hwyrach, ond maent oll yn cyfrannu at y teimlad o anesmwythyd a gawn wrth ddarllen, o feini tramgwydd bychain (a rhai mwy) yn torri ar lif a rhediad y stori byth a hefyd. Nofel uchelgeisiol, ie, ond un y mae pwysau ei deunydd yn drech na hi ar brydiau. Ac eto, mae'n meddu ar un o rinweddau mawr nofel dda, sef ei bod yn gafael yn y darllenydd ac yn ei orfodi i ddarllen ymlaen am fod ganddo ddiddordeb gwirioneddol yn nhynged y cymeriadau. Diddordeb, rhaid cyfaddef, a'm cariodd hyd at ddiwedd y nofel, a thu hwnt: hynny yw, teimlwn yn falch ei bod yn gorffen mewn ffordd mor benagored, gan obeithio fod hynny'n ernes fod trydedd cyfrol o'r *Fro Dirion* i ymddangos cyn bo hir.

S.A.E.

*Y Ffoaduriaid* (Ail gyfrol *Y Fro Dirion*) Geraint Vaughan Jones. Christopher Davies (Cyhoeddwyr) Cyf. £2.50.

## LLONGYFARCHIADAU

I Gareth, mab Mr a Mrs Wood, Clog-y-berth, Cyncoed, ar gael ei benodi'n gyfieithydd gyda Chyngor Sir Gwynedd. Graddiodd Gareth yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor ym Mehefin 1979. Pob lwc iddo yn ei swydd newydd.




**Ffenestr-siop**
**Y SIOP I CHI...**

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

**CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU**

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS
— yr enw y gellwch ymddiried ynddo JWd
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)

# 1939-1949-1979

*(Diolchwn i Dr. Caryl Davies am yr isod a fydd yn llawn o atgofion i lawer)*

## Cylchgrawn Cymdeithas Rieni Bryntaf, Tymor yr Hydref

Annwyl Rieni,

Ar ddechrau blwyddyn newydd yn hanes Ysgol Bryntaf ac ar ddechrau fy nhymor fel Llywydd y Gymdeithas Rieni, dechreuais feddwl am frwydr yr ychydig Gymry Cymraeg yn y ddinas hon flynyddoedd yn ôl i sefydlu Ysgol Gymraeg yma. Yng nghanol ein trafferthion a'n problemau ni heddiw yn ein hymgrych am ragor o ysgolion Cymraeg, mae'n briodol i ni gofio gwir ymdrech ac ymroddiad y rhieni hynny a oedd yn torri tir newydd ddeugain mlynedd yn ôl.

Trwy garedigrwydd Ethni Jones (gynt Daniel) cefais y cyfle i astuio cofnodion manwl y pwyllgor cyntaf i sefydlu'r ysgol (ei thad, Gwyn Daniel, oedd Ysgrifennydd y Pwyllgor, ac yntau'n weithiwr dygn a diflino yn yr ymgyrch.) Erbyn hyn rwy'n sylweddoli fod yna ddau ben blwydd eleni. Yn gyntaf, deugain mlyned yn ôl yn 1939, sefydlwyd y pwyllgor cyntaf i sefydlu Ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ac yn ail, deg ar hugain o flynyddoedd yn ôl, yn 1949, agorwyd yr Ysgol Gymraeg. Byddai'n dda o beth i ni gofio'r ddwy garreg filltir bwysig yn hanes yr ysgol.

Mae'r hanes cyntaf yn mynd yn ôl i'r cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd yn y cyfnod rhwng 1936 a 1939 pan fu'r trafod cyntaf i sefydlu Ysgol Gymraeg yn y ddinas, tebyg i Ysgol San Nicolas yn y Fro ac hefyd Ysgol Cilfynydd. Ond gyda dechrau'r Rhyfel ym mis Medi 1939, sylweddolwyd na fyddai'n bosibl darbwyllo Awdurdod Addysg Dinas Caerdydd i symud gam ymlaen.

Beth bynnag, pan sefydlwyd Ysgol Gymraeg breifat ar Aelwyd yr Urdd Aberystwyth yr un flwyddyn bu ymateb brwd ymysg Cymry Caerdydd a phenodwyd pwyllgor bach ar unwaith i edrych i mewn i'r posibiliadau o ddechrau ysgol yma hefyd. Roedd y pwyllgor yn cynnwys Y Parch Myrddin Davies (Capel Tabernacl), Mrs. T.J. Jones (Capel y Crwys), Mr. Evan John Jones (Adran Addysg Coleg y Brifysgol), a fu farw yn ei gartre yn y Rhondda yn gymharol ddiweddar, Rachel Hywel Thomas (Capel Minny St.) a Gwyn Daniel (Capel Ebeneser). Daeth Ifan ap Owen Edwards, a fu'n gysylltiedig â sefydlu Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth, i annerch cyfarfod o rieni yng Nghaerdydd a phwysleisiodd mai ysgol breifat y dylai'r ysgol fod, os nad oedd y Pwyllgor Addysg yn barod i'w chynnal.

Mewn sawl pwyllgor a chyfarfod ar ôl hwn gwnaethpwyd llawer penderfyniad ynglŷn â sefydlu'r ysgol:

Tâl o £6 y flwyddyn; chwilio am ddeg o noddwyr i gyfrannu am bum mlynedd o leiaf; chwilio am athrawes am gyflog o £100 y flwyddyn (h.y. tua deuparth tâl sylfaenol cychwynnol athrawes mewn ysgol elfennol, neu gynradd, ar y pryd). Roedd yr ysgol i fod o dan nawdd yr Urdd ac yn barod i dderbyn plant o 4 neu 5 hyd at 9 mlwydd oed.

Er mwyn cael mwy o arian oddiwrth noddwyr danfonodd y Pwyllgor lythyr at bobl flaenllaw y ddinas yn gofyn am eu cefnodaeth yn y fenter. Cafwyd ymateb pendant oddiwrth Yr Arglwydd Faer, yr Henadur Henry Johns yn awgrymu y dylai'r rhieni ddangon dirprwyaeth i gwrdd ag aelodau Pwyllgor Addysg Dinas Caerdydd i drafod y posibilrwydd o sefydlu Ysgol Gymraeg dan nawdd y Pwyllgor Addysg. Aelodau'r pwyllgor oedd Mr. Jenkin James, Ysgifennydd Gwasg Prifysgol Cymru, Mr. Evan John Jones fel arbenigwr mewn addysg, Mr. Iorwerth Peate i gynrychioli'r rhieni a Mr. (wedyn Syr) Ifan ap Owen Edwards fel un â phrofiad o Ysgol Gymraeg yr Urdd yn Aberystwyth.

Ar Fai 14eg 1940 cafwyd adroddiad y ddirprwyaeth mewn pwyllgor arbennig yn Nhŷ'r Cymry ac rwy'n dyfynnu ychydig o'r adroddiad hwnnw: "Pwysleisiodd y ddirprwyaeth nad oedd y gyfundrefn bresennol yn codi to o blant a fyddai'n gymwys i arwain ym mywyd cyhoeddus Cymru, ond pe mabwysiedid cynllun y ddirprwyaeth mewn ysgol o dan Bwyllgor Addysg y Ddinas lle byddai'r Gymraeg ar yr un tir â'r Saesneg, yr enynnai'r fath hunan-barch yn y Cymro bach â'i hysbrydolai i ymdrechu i lwyddo mewn ysgoloriaeth, hyd yn oed yn yr ysgoloriaeth bresennol (yr 11+) â'i rhifyddiaeth a'i hiaith yn Saesneg".

Roedd rhai cynghorwyr bryd hynny yn amheus a oedd llyfrau addas yn y Gymraeg ar gyfer pob testun, ond roedd y Cyfarwyddwr Addysg ei hun yn fwy pendant yn ei gynllun i baratoi ar gyfer addysg Gymraeg. Yn ei dyb ef dylai'r Ysgol Gymraeg fod yn uned o fewn ysgol arall, gan osgoi felly unrhyw ychwanegiad sylweddol at dreuliau'r Pwyllgor Addysg. Hefyd roedd am weld tua 30 o enwau plant i fynychu'r ysgol hon cyn gosod y mater gerbron y Pwyllgor Addysg. Fel Prif Ddinesydd, roedd yr Arglwydd Faer hefyd am weld yr ymdrech hon yn llwyddo.

Felly dyna flas o'r frwydr i sefydlu Ysgol Gymraeg Caerdydd. Mae'n ddyledus i ni heddiw gofio am yr ychydig bobl ymroddgar, am eu hymdrech a'u gweledigaeth. Ni sefydlwyd yr ysgol, yn Ninian Park Road, tan 1949 ac mae'r naw mlynedd o helynt yn ddiddorol ynddo ei hun ond stori arall yw honno mewn rhifyn arall efallai.

I ddod nôl i'r presennol, os oes neges gen i ar ddechrau'r flwyddyn, yn syml 'rwyn gofyn am eich teyrngarwch a'ch cydweithrediad a'ch penderfyniad i weithio gyda'n gilydd er lles ein plant. Y nod yw rhagor o ysgolion Cymraeg yn y ddinas a'r rheiny mewn adeiladau addas, gweddus.

Erbyn hyn mae Pwyllgor adloniant wedi ei sefydlu er mwyn i rieni'r ysgol ddod i adnabod ei gilydd yn well. Mae rhaglen ddiddorol wedi ei threfnu yn cynnwys gweithgareddau amrywiol, ond heb eich cefnogaeth chi, fe all yr holl baratoadau fynd yn ofer. Os na fedrwch ddod i bob cyfarfod, rwyn gobeithio y gallwch brynu tocyn o leiaf. Yn y pen draw, ein plant fydd yn elwa.

## CARDIFF RADIO neu RADIO CAERDYDD???

Fel y gwelodd pob un a gafodd gopi o Ddinesydd Tachwedd, mae Ymddiriedolaeth Radio Caerdydd wedi mynd ati i sefydlu "asgwrn cefn" os dyna'r gair, i'r Cwmni Radio lleol a fydd yn dechrau darlledu ym Mai 1980. Mae i'r asgwrn cefn yma nifer o segmentau, fel cerddoriaeth, addysg, newyddion, cŵyn a chyngor, etc.. Maen nhw wedi dosbarthu rhai miloedd o daflennu (12 mil yn y Gymraeg) i bobol yn eu gwahodd i ddod i siopau gwaith i ystyried syniadau a chynlluniau i'w cynnig i'r cwmni. Dywedodd un o'r Ymddiriedolaeth wrth Y DINESYDD ei fod yn hynod falch o gefnogaeth frwd pobl y ddinas ond mai pur ychydig o Gymry Cymraeg a ddeuai i'r un gweithdy. Ydy hon yn enghraifft eto ohonon ni'n cadw sŵn arnyn nhw am beidio â diogelu'n buddiannau heb inni fod yn barod i wneud llawer droson ni'n hunain?

Fe gewch bob gwybodaeth o ffonio David Still yn Chapter (396061) am ragor o wybodaeth.




*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 43 Lower Cathedral Rd, Caerdydd. C 2557*